CAMAU CYNTAF

1.1. UNIAETHU'R ANGEN

Wrth ystyried sefydlu darpariaeth newydd ar gyfer ieuenctid, mae'n angenrheidiol eich bod yn y lle cyntaf yn sefydlu:
i). Bod angen am y ddarpariaeth yn y gymuned
ii). Nad ydych yn dyblygu darpariaeth gynfodol

Bydd rhwydweithio â darparwyr eraill a gyda'r gymuned leol yn galluogi'r broses ddechrau. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn angenrheidiol at lwyddiant tymor hir y prosiect, fel bydd yr angen i sefydlu perthynas effeithiol a gweithredol rhwng yr ieuenctid a'r aelodau hŷn yn y gymuned.

Tra bod gennych chi ac aelodau oedolion eraill yn y gymuned syniadau am *'Beth sydd ar bobl ifainc eu hangen'*, mae gan bobl ifainc eu syniadau eu hunain. Dylid ymgynghori'n llawn â, ac ymglymu pobl ifainc yn natblygiadau newydd a phrosiectau cynfodol. Mae angen ar i bobl ifainc fabwysiadu perchnogaeth dros y ddarpariaeth fel aelodau, fel eu bod, ym mlynyddoedd y dyfodol, gyda chefnogaeth a hyfforddiant, y byddant yn datblygu yn weithlu gwirfoddol.

Mae gwirfoddolwyr effeithiol yn angenrheidiol i lwyddiant y clwb/prosiect a dylid eu dewis ar sail y sgiliau a'r profiad sydd ganddynt i gynnig.

Dylech geisio sefydlu ehangder y gefnogaeth sydd ar gael yn y gymuned a pha gyfleusterau a allai fod ar gael at eich defnydd.

Wrth uniaethu'r angen:

- **DYLECH**
  Ymgynghori â, neu sefydlu Pwyllgor Ieuenctid
  Ymweld â'r ardal a chael Proffiliau Cymunedol, lle maent ar gael
  Wrando ar bobl ifainc a'r gymuned ehangach
  Fabwysiadu perthynas gweithiol rhwng oedolion a phobl ifainc
  Weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill
  Baratoi yn effeithlon

- **PEIDIWCH**
  Addo unrhyw beth nad allwch ei drosgludo
  Bod rhy feddal neu rhy galed wrth ymdrin â phobl ifainc
  Dweud na ellir ei wneud
  Siarad am grefydd na gwleidyddiaeth
  Gosod eich hunan mewn sefyllfaoedd un ag un

CAMAU CYNTAF

1.2. CEFNOGAETH GYMUNEDOL

Bydd cefnogaeth y gymuned yn angenrheidiol ar gyfer rhedeg a llwyddiant tymor hir eich darpariaeth. Dylid sefydlu pwy fydd yn gefnogol mor gynnar â phosib. Bydd y bobl hynny yn gallu darparu cefnogaeth i'r clwb/prosiect mewn llawer o ffyrdd gwahanol, rhai trwy wirfoddoli i redeg y clwb, rhai yn cynnig help ariannol ac eraill yn cefnogi'r syniad neu ddigwyddiadau a drefnir gan y clwb.

- **Cefnogaeth Gwirfoddolwyr** – Mae'r bobl yma yn cynnig eu hamser a'u hegni yn ddi-dâl. Dylid dangos llawer o barch i'r bobl yma, cofiwch hebddynt ni fyddai gennych glwb o gwbl. Mae rhaid i wirfoddolwyr fynd trwy'r un broses â staff cyflogedig; mae hynny er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ac yn ddiogel ar gyfer gweithio gyda phobl ifainc.

- **Cefnogaeth Ariannol** - Mae arian yn ffactor pwysig ym mhob clwb ieuenctid. Gwnewch gysylltiad y tu fewn i'ch Cyngor Cymunedol a'ch Cyngor Sir gan uniaethu'r person cyswllt er mwyn cefnogi pob cais a dymuniad a wnewch am gymorth ariannol. Cofiwch hefyd i fanteisio ar gefnogaeth a digwyddiadau a drefnir gan sefydliadau megis Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol.

Mae creu perthynas dda â'r ysgol leol yn ffordd dda iawn o gyrraedd y rhifau mwyaf o bobl ifainc, sydd yn angenrheidiol at bwrpas ymarferion ymgynghori a chasglu gwybodaeth. Un dull a ellir ei ddefnyddio at y pwrpas yma yw'r defnydd o holiaduron. Efallai y bydd eisiau gwahanol holiaduron er mwyn cael gwybodaeth oddi wrth wahanol grwpiau er mwyn casglu gwybodaeth oddi wrth wahanol grwpiau o fewn y gymuned, er mwyn cael darlun clir o farn y gymuned ar y cyfan.

Mae rhestr o gwestiynau isod a fyddai, efallai, yn werth gofyn i bobl allweddol yn y gymuned:

i). Ydych chi'n teimlo bod darpariaeth ieuenctid digonol ar gyfer pobl ifainc yn eich ardal?
ii). Pa weithgareddau sydd ar gael yn barod ar gyfer y bobl ifainc yn y gymuned?
iii). Ydych chi'n barod i helpu pobl ifainc yn y gymuned?
iv). Faint o waith yr ydych chi'n gwneud gyda phobl ifainc y tu fewn i'r gymuned?
v). Pa faterion yn ymwneud â phobl ifainc sydd yn amlwg yn eich cymuned?

<u>Cyfarfodydd Cyhoeddus</u>

Y ffordd orau i sicrhau fod cyfarfod cyhoeddus yn rhedeg heb ffwdan yw trwy fod yn drefnus. Mae rhai trefniadau yn angenrheidiol tra fod eraill ddim mor bwysig ond dangoswch agwedd o ymrwymiad a phroffesiynoldeb am y prosiect. Mae'n bwysig i baratoi agenda ar gyfer y cyfarfod i sicrhau fod y cyfarfod yn rhedeg yn llyfn ac i alluogi'r cadeirydd i lywio'r cyfarfod yn fwy effeithlon. Cofiwch fod Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn gweithio ar eich rhan a dylai fod yn barod i'ch cynorthwyo ar gyfer cynllunio a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus.

Isod mae rhestr o faterion i'w hystyried wrth gynllunio eich cyfarfod:

i). Sicrhewch eich bod yn trefnu man cyfarfod sydd yn gyfleus ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.
ii). Sicrhewch eich bod yn marchnata'r cyfarfod trwy rhoi wybod i sefydliadau lleol sydd yn ymwneud â phobl ifanc yn ogystal â phobl allweddol a hefyd, er mwyn

CAMAU CYNTAF

creu cymaint o ddiddordeb â phosib, rhowch bosteri o amgylch y pentref a'r ysgol.

iii). Nodwch pob manylyn yn fanwl – sicrhewch bod y dyddiad, amser a lleoliad yn amlwg er mwyn osgoi camddealltwriaeth.

iv). Ydych eisiau cynnig rhyw fath o luniaeth, ac os felly cynhwyswch hynny ar yr agenda. Gwell fyddai gwneud hyn ar ddiwedd y cyfarfod.

Agenda *(Esiampl)*

- Croeso
- Cyflwynwch eich hunan ac unrhywun arall yr ydych wedi ei wahodd i siarad.
- Cyflwynwch syniadau am y prosiect
- Sylwadau a Chwestiynau
- Trafodaeth
- Camau nesaf
    - Sefydlu pwyllgor
    - Rhestru aelodau posib y pwyllgor
- Unrhyw fusnes arall
- Te a choffi